OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2443 (Cy.215)

GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008

Gwnaed - - - -	*15 Medi 2008*
Yn dod i rym - -	*16 Medi 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 203(9) a (10) a pharagraff 9(1) o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008 a daw i rym ar 16 Medi 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 16 Medi 2008.

Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau

2. Ar y dyddiad trosglwyddo trosglwyddir yr eiddo o'r enw Ysbyty Abergele (Rhif Cofrestrfa'r Tir CYM 324611) a phob hawl a rhwymedigaeth sydd ynghlwm wrth yr eiddo hwnnw o Weinidogion Cymru i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru.(**2**).

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Medi 2008

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2008/ 1648 (Cy. 160).